# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

# Adroddiad Craffu Blynyddol 2025-26



## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tudalen 2 |
| Craffu ym Mlaenau Gwent | Tudalen 3-5 |
| Yn newydd ar gyfer 2025/26 | Tudalen 6-7 |
| Cipolwg ar Bwyllgorau Craffu Blaenau Gwent 2025/26 | Tudalen 8 |
| Pwyllgor Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau | Tudalen 9-12 |
| Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | Tudalen 13-16 |
| Pwyllgor Craffu Datblygu Economaidd a Rheoli Amgylcheddol | Tudalen 17-20 |
| Pwyllgor Craffu Oedolion, Cymunedau a Llesiant | Tudalen 22-25 |
| Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent | Tudalen 26-27 |
| Presenoldeb Aelodau ar y Cyfan mewn Pwyllgorau Craffu | Tudalen 28 |
| Holiadur Gwerthuso Blynyddol yr Aelodau | Tudalen 29 |
| Sut y gall y cyhoedd ymwneud â’r Broses Graffu | Tudalen 30 |
| Deddfwriaeth | Tudalen 31 |
| Datblygiadau Arfaethedig yn y Dyfodol | Tudalen 32 |
| Cysylltiadau | Tudalen 33 |

# Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Craffu Blynyddol Blaenau Gwent 2025-26, sy'n darparu trosolwg ar y gwaith a wnaed gan bob Pwyllgor Craffu.

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r gweithgarwch craffu a gyflawnwyd gan Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn ystod 2025/26.

Mae gan Gyngor Blaenau Gwent 33 o Aelodau Etholedig. 5 o'r Aelodau hyn yw Cabinet y Cyngor, sef y corff penderfynu, ac mae 24 o Aelodau Etholedig yn gwasanaethu ar y pedwar Pwyllgor Craffu. Mae'r 4 Aelod Etholedig sy'n weddill yn gwasanaethu ar Bwyllgorau Rheoleiddio eraill.

Er nad oes gan Bwyllgorau Craffu bwerau i wneud penderfyniadau, maent yn cyflawni rôl bwysig o ran darparu rhwystrau a gwrthbwysau ar y pwerau a arferir a'r penderfyniadau a wneir gan y Cabinet.

Mae'r Pwyllgorau Craffu'n galluogi Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet i fod â rôl gryfach ym musnes y Cyngor trwy:

- Gynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu a llunio polisi;
- Monitro perfformiad y Cyngor a'i bartneriaid;
- Adolygu effaith penderfyniadau a pholisïau'r Cabinet a'r modd y cânt eu rhoi ar waith;
- Dwyn yr Arweinydd, y Cabinet ac Uwch Swyddogion i gyfrif;
- Gwrando ar farn y cyhoedd a gwneud yn siŵr bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed; a hefyd
- Craffu ar y sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer ein trigolion.

Mae craffu'n fwyaf effeithiol pan fo'n canolbwyntio ar nifer gyfyngedig o flaenoriaethau ac yn eu harchwilio'n fanwl. Wrth ddethol eitemau ar gyfer agendâu, dylai Pwyllgorau ystyried gwerth tebygol ac effaith debygol unrhyw adroddiad neu adolygiad, gan daro cydbwysedd mewn modd gofalus rhwng hyn a'r amser ac adnoddau y mae eu hangen i wneud y gwaith.

Gall pynciau eraill o ddiddordeb neu er gwybodaeth y mae eu hangen i wella gwybodaeth a sgiliau Aelodau mewn meysydd arbennig gael eu darparu trwy Sesiynau Briffio Aelodau, Sesiynau Briffio Cyfarwyddiaethau a Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau.

Mae'r holl gyfarfodydd democrataidd yn cael eu recordio a'u lanlwytho i wefan Blaenau Gwent.

# Craffu ym Mlaenau Gwent

Ym mis Ionawr 2025, fe gytunodd y Cyngor Llawn ym Mlaenau Gwent ac yn Nhorfaen i ffedereiddio. Wedyn fe wnaed gwaith i sicrhau bod portffolios y Cabinet a Phwyllgorau Craffu'n cyd-fynd â strwythurau'r cyfarwyddiaethau a gyflwynwyd o 1 Mai 2025. Ceir y manylion hyn isod:

Y pedwar Pwyllgor Craffu yw:

- Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau (sy'n cyd-fynd â Phortffolio Adnoddau Corfforaethol y Cabinet);
- Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd (sy'n cyd-fynd â Phortffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd y Cabinet);
- Oedolion, Cymunedau a Llesiant (sy'n cyd-fynd â Phortffolio Oedolion a Chymunedau'r Cabinet); a
- Datblygu Economaidd a Rheoli Amgylcheddol (sy'n cyd-fynd â Phortffolio Cymdogaeth ac Amgylchedd y Cabinet a Phortffolio Economi a Lle'r Cabinet).

Mae gan bob pwyllgor craffu gylch gwaith penodol. Caiff manylion llawn y meysydd a gwmpesir gan bob pwyllgor craffu eu hamlygu'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Mae strwythur agendâu craffu'n helpu Aelodau i herio pob eitem a drafodir yn fanwl. Cynghorir bod pob agenda graffu'n cynnwys uchafswm o ddwy eitem, dan y categorïau 'Cyn Penderfynu' a 'Monitro Perfformiad', i sicrhau bod agendâu'n cynnwys ffocws pendant a'u bod o gymorth i wneud penderfyniadau mewn modd effeithiol. Fodd bynnag, weithiau gall agendâu fod yn fwy o faint i adlewyrchu gofynion craffu a phenderfynu. Mae lleihau nifer yr eitemau ar gyfer craffu hefyd wedi helpu i sicrhau nad yw Blaenraglen Waith y Cabinet yn cael ei gorlethu gan eitemau monitro. Serch hynny, gall eitemau monitro gael eu cynnwys ar y Flaenraglen Waith fel eithriad, e.e. pethau nad ydynt yn mynd yn dda neu os yw'n ofynnol gwneud penderfyniad.

Mae gwahoddedigion a thystion arbenigol wedi cael eu gwahodd ac wedi cyfrannu at gyfarfodydd craffu, gan gynnwys y Gwasanaeth Gwella Ysgolion ac Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.

Y tu allan i gyfarfodydd pwyllgorau craffu ffurfiol, mae Aelodau wedi mynychu nifer o sesiynau briffio, sydd wedi bod yn addysgiadol ac wedi datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am bynciau penodol.

Cynhelir sesiynau briffio cyfarwyddiaethau chwarterol gyda Chyfarwyddiaethau unigol hefyd, y gwahoddir pob Aelod iddynt. Mae'r sesiynau hyn â ffocws pendant yn darparu gwybodaeth a manylion am feysydd gwasanaeth, gan helpu i gynyddu diddordeb a brwdfrydedd Aelodau.

### Cyfarfodydd Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion

Cynhelir cyfarfodydd Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i drafod ac adolygu gweithgarwch gweithrediadol y swyddogaeth graffu ym Mlaenau Gwent, i gyfrannu at welliannau ac i sicrhau arfer cyson lle y bo'n briodol. Yng nghyfarfodydd mis Mehefin, mis Medi a mis Rhagfyr, roedd yr agenda'n cynnwys yr eitemau safonol canlynol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion craffu **yn unig**:

- Gwerthuso'r cylch blaenorol;
- Ystyried eitemau ar gyfer y cylch nesaf; a
- Dysgu rhwng cymheiriaid ar draws pwyllgorau craffu.

Gall Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion ychwanegu rhagor o eitemau yn ôl y gofyn.

Yng nghyfarfod mis Mawrth, bydd yr agenda'n cynnwys yr eitemau safonol canlynol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu, gyda gwahoddiad yn cael ei estyn i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

- Unrhyw wersi i'w dysgu o'r gwerthusiad blynyddol, i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;
- Ystyried y blaenraglenni gwaith drafft ar gyfer y cylch pwyllgorau sydd ar ddod;
- Gofynion o ran hyfforddiant; a hefyd
- Dysgu rhwng cymheiriaid ar draws y Pwyllgorau Craffu, Llywodraethu ac Archwilio a Gwasanaethau Democrataidd.

## Blaenraglenni Gwaith

Datblygwyd Blaenraglenni Gwaith craffu 2025/26 trwy broses gynllunio strwythuredig i sicrhau bod gweithgarwch pwyllgorau'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor, gofynion statudol, busnes arfaethedig y Cabinet a'r Cyngor, a meysydd lle gallai craffu ychwanegu gwerth trwy herio cyn penderfynu a monitro perfformiad.

Roedd y broses yn cynnwys adolygu eitemau cylchol a lefel-uchel o raglenni blaenorol, adnabod adroddiadau allweddol ar gyfer y cylch craffu, a datblygu rhaglenni drafft i'w hystyried gan swyddogion a Thimau Rheoli Cyfarwyddiaethau.

Cynhaliwyd trafodaethau pellach gyda meysydd gwasanaeth i fireinio eitemau arfaethedig, cadarnhau graddfeydd amser adroddiadau ac eglurhau a oedd adroddiadau'n ofynnol at ddibenion craffu cyn penderfynu, monitro perfformiad ynteu gwybodaeth a briffio.

I grynhoi, roedd hyn yn cynnwys:

- adolygu eitemau craffu cylchol a lefel-uchel;
- adnabod adroddiadau allweddol ar gyfer y cylch craffu;
- datblygu rhaglenni drafft gyda mewnbwn gan swyddogion;
- mireinio eitemau gyda meysydd gwasanaeth a Thimau Rheoli Cyfarwyddiaethau;
- ymgynghori â Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion ynghylch blaenoriaethau pwyllgorau;
- ceisio cymeradwyaeth pwyllgorau yn ystod cylch mis Mehefin a mis Gorffennaf; a hefyd
- cyhoeddi'r rhaglenni a'u cynnal fel dogfennau byw.

Fe ymgynghorwyd â Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion hefyd yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i adolygu'r rhaglenni drafft, ystyried blaenoriaethau pwyllgorau a chytuno ar unrhyw newidiadau cyn eu cyflwyno i'r pwyllgorau craffu perthnasol i'w cymeradwyo yn ystod cylch mis Mehefin a mis Gorffennaf.

Cafodd y rhaglenni a gymeradwywyd eu cyfieithu, eu cyhoeddi a'u cynnal fel dogfennau byw, gan ei gwneud yn bosibl eu diweddaru trwy gydol y flwyddyn mewn ymateb i faterion a oedd yn dod i'r amlwg, newidiadau i flaenoriaethau gwasanaethau neu raddfeydd amser diwygiedig ar gyfer adroddiadau.

Cafodd sesiynau briffio aelodau eu cynnwys hefyd i ategu gwaith craffu y tu allan i broses ffurfiol pwyllgorau a darparu diweddariadau â ffocws pendant ar feysydd gwasanaeth, datblygiadau polisi a materion gweithrediadol allweddol.

Ar y cyfan, fe wnaeth y broses gryfhau'r cyswllt rhwng craffu a busnes y Cabinet a'r Cyngor a darparu fframwaith eglur i'r Aelodau graffu ar benderfyniadau strategol, monitro perfformiad a rhoi cymorth i wella gwasanaethau yn ystod blwyddyn y Cyngor yn 2025/26.

Mae'r Blaenraglenni gwaith ar gael ar wefan Cyngor Blaenau Gwent – Pwyllgorau Craffu

## Yn newydd ar gyfer 2025/26 …

**Bargen Blaenau Gwent – Bargen y Cyngor gyda'r Gymuned**

Datblygwyd Bargen Blaenau Gwent yn ystod 2025/26 fel rhan o waith trawsnewid ehangach y Cyngor a'i ymrwymiad i weithio'n wahanol gyda chymunedau. Mae'n nodi contract arfaethedig rhwng y Cyngor a'r gymuned, gyda ffocws ar drechu anghydraddoldebau, cryfhau ymgysylltiad a chefnogi cydgyfrifoldeb am wella deilliannau ledled Blaenau Gwent.

Mae'r Pwyllgor Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau wedi bod yn rhan o ddatblygu Bargen y Cyngor gyda'r Gymuned.

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ym mis Medi 2025, a oedd yn rhoi'r cyfle i Aelodau graffu ar y Strategaeth ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'r Dull ar gyfer datblygu Bargen y Cyngor gyda'r Gymuned, herio'r rhain a dylanwadu arnynt.

Cyflwynwyd ail adroddiad, *Pennu'r Egwyddorion ar gyfer Bargen Blaenau Gwent*, i'r Pwyllgor ar 19 Chwefror 2026 hefyd. Roedd Aelodau Cynulliad Blaenau Gwent yn bresennol yn y cyfarfod i Hysbysu'r Aelodau am rôl y Cynlluniad i greu set o egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio i lywio Bargen Blaenau Gwent.

Bydd gan y Pwyllgor Craffu rôl dyngedfennol o ran goruchwylio a chynghori i sicrhau bod y cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu'n gadarn, yn gynhwysol ac yn cyd-fynd â nodau trawsnewid y Cyngor.

**Monitro Adroddiadau Archwilio Allanol**

Mae gan Bwyllgorau Craffu bellach rôl gryfach o ran monitro cynnydd yn erbyn adroddiadau archwilio allanol ac argymhellion cysylltiedig. Mae hyn yn ategu trefniadau sicrwydd ehangach y Cyngor ac yn helpu i sicrhau bod camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu cwblhau'n llawn.

Ym mis Chwefror 2025, fe gytunodd y Cyd-Dîm Gweithredol y byddai Cynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen yn cysoni eu prosesau ar gyfer monitro ac adrodd yn erbyn argymhellion archwilio allanol. Mae'r Cyngor yn cael nifer o archwiliadau allanol trwy gydol y flwyddyn, sy'n helpu i sicrhau y cydymffurfir â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, rhoi cymorth i reoli arian cyhoeddus yn effeithiol, ac adnabod cyfleoedd i wella gwasanaethau.

I ategu'r gwaith hwn, mae Offeryn Tracio Cynnydd Risg a Sicrwydd mewnol wedi cael ei sefydlu i fonitro'r ymateb i weithgarwch archwilio allanol o'i ddechrau nes ei fod wedi ei gwblhau.

**Offeryn Tracio Argymhellion Craffu**

Ar ddechrau cylch newydd mae pob Pwyllgor Craffu bellach yn cael adroddiad monitro sy'n nodi'r holl argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor a'r cynnydd a wnaed yn eu herbyn. Datblygwyd y broses fel rhan o'r camau ehangach i gysoni trefniadau â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac mae'n ategu dull mwy cyson o dracio deilliannau craffu.

Mae'r offeryn tracio'n cofnodi pob argymhelliad o'r adeg y caiff ei wneud nes y caiff ei gwblhau. Mae'n dangos a yw argymhellion wedi cael eu derbyn, eu gwrthod neu eu derbyn yn rhannol gan y Cyngor, neu gorff penderfynu perthnasol arall. Lle mae argymhelliad wedi cael ei wrthod neu ei dderbyn yn rhannol, darperir sylwebaeth yn yr adroddiad i egluro'r sefyllfa.

Mae'r offeryn tracio hefyd yn cofnodi camau gweithredu eraill y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor ac yn darparu diweddariad ar eu statws. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod argymhellion a dderbyniwyd a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael sylw dilynol, y gwneir cynnydd gyda hwy a'u bod yn cael eu monitro nes eu bod wedi cael eu cwblhau.


Mae Pwyllgorau Craffu wedi croesawu'r broses newydd, gan ei bod yn rhoi trosolwg fwy eglur i'r Aelodau ar yr argymhellion a wnaed, yr ymatebion a gafwyd, a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

## Cipolwg ar Bwyllgorau Craffu Blaenau Gwent 2025/26




### Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau

- **9** Cyfarfod yn ystod 25/26
- **10** eitem cyn penderfynu
- **68** edrychiad unigryw ar gyfarfodydd y pwyllgor
- Cyfarfod y pwyllgor yr edrychwyd fwyaf arno ar **25 Medi 2025**
- **4** tyst arbenigol wedi mynychu cyfarfodydd (Aelodau o Gynulliad Dinasyddion BG)
- **79%** o'r aelodau wedi mynychu cyfarfodydd craffu



### Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

- **9** Cyfarfod yn ystod 25/26
- **8** eitem cyn penderfynu
- **68** edrychiad unigryw ar gyfarfodydd y pwyllgor
- Cyfarfod y pwyllgor yr edrychwyd fwyaf arno ar **20 Ionawr 2026**
- **2** dyst arbenigol wedi mynychu cyfarfodydd (Swyddogion o'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion)
- **83%** o'r aelodau wedi mynychu cyfarfodydd craffu



### Datblygu Economaidd a Rheoli Amgylcheddol

- **12** Cyfarfod yn ystod 25/26
- **9** eitem cyn penderfynu
- **119** edrychiad unigryw ar gyfarfodydd y pwyllgor
- Cyfarfod y pwyllgor yr edrychwyd fwyaf arno ar **9 Medi 2025**
- **82%** o'r aelodau wedi mynychu cyfarfodydd craffu



### Oedolion, Cymunedau a Llesiant

- **6** Cyfarfod yn ystod 25/26
- **3** eitem cyn penderfynu
- **26** edrychiad unigryw ar gyfarfodydd y pwyllgor
- Cyfarfod y pwyllgor yr edrychwyd fwyaf arno ar **30 Hydref 2025**
- **1** tyst arbenigol wedi mynychu cyfarfodydd (Rheolwr Gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin)
- **78%** o'r aelodau wedi mynychu cyfarfodydd craffu

## Pwyllgor Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau

## Trosolwg y Cadeirydd

Mae'r Pwyllgor Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau wedi cwrdd naw gwaith eleni. Mae'r eitemau ar gyfer y cyfarfodydd hyn wedi bod yn amrywiol ac wedi cynnwys adroddiadau cynhwysfawr ar sefyllfa ariannol y Cyngor, yn ogystal ag adroddiadau ar bolisïau a chynlluniau.

Hefyd, bu nifer o sesiynau briffio aelodau i hybu gwybodaeth a gwella sgiliau.

Rwy'n falch iawn bod presenoldeb ac ymwneud aelodau'r pwyllgor yn parhau i fod yn ardderchog, a diolchaf i bawb am eu mewnbwn gwerthfawr – maent wedi gofyn cwestiynau stilgar a heriol ac wedi cymryd rhan mewn trafodaethau adeiladol am nifer o'r eitemau a gyflwynwyd. Mae'r pwyllgor yn parhau i ddefnyddio dalenni gweithredu i sicrhau bod yr holl bwyntiau gweithredu'n cael sylw mewn cyfarfodydd dilynol.

Mae'r adroddiadau wedi parhau i fod o safon uchel, a rhaid i mi hefyd gydnabod gwaith swyddogion i baratoi a chyflwyno'r rhain.



***Y Cyngh. Joanna Wilkins***
***Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau***

### Presenoldeb Aelodau

| Rôl | Aelod | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Y Cynghorydd Joanna Wilkins | 9 o 9 |
| Is-Gadeirydd | Y Cynghorydd Dean Woods | 8 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd Keith Chaplin | 5 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd Gareth A Davies | 7 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd Ross Leadbeater | 8 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd John P Morgan | 7 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd Chris Smith | 9 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd David Wilkshire | 4 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd Lisa Winnett | 9 o 9 |

### Cylch Gwaith y Pwyllgor

Prif feysydd cyfrifoldeb y **Pwyllgor Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau** yw datblygu ac adolygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau, a monitro perfformiad y Cyngor ar y cyfan, gan gynnwys:

- Datblygu Sefydliadol
- Adnoddau
- Perfformiad
- Llywodraethu Corfforaethol
- Polisi Corfforaethol
- Y Gymraeg
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Diogelu Corfforaethol
- Refeniw
- Rheoli ariannol yn y Cyngor

## Trosolwg o ddarn allweddol o waith a wnaed gan y Pwyllgor:

| Pwnc: Monitro Diogelu ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol | |
|---|---|
| **Gweithgarwch** | Hwn oedd yr adroddiad cyntaf i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor mewn ymateb i adroddiad Archwilio Cymru ar Ddiogelu ym Mlaenau Gwent. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor ar 19 Mehefin 2025. Darparwyd yr adroddiad i alluogi aelodau i adnabod tueddiadau diogelu a meysydd yn y Cyngor yr oedd gofyn eu datblygu ymhellach i wella arfer diogelu ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. |
| **Canlyniad** | Cytunodd y Pwyllgor fod hwn yn faes gwaith tyngedfennol i'r Cyngor a bod angen i argymhellion Archwilio Cymru gael eu monitro'n rheolaidd. Felly, fe argymhellwyd fod y Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd yn erbyn y Cynllun Gweithredu.<br><br>Wedyn cafodd y Pwyllgor adroddiad pellach ar 6 Tachwedd 2025. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys atodiad a oedd yn manylu ar y camau gweithredu yr oedd y Cyngor wedi'u hadnabod, yn ogystal â diweddariad ar gynnydd a sgôr BRAGG cyfredol a blaenorol.<br><br>Un o'r camau gweithredu a adnabuwyd oedd adolygu'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Cyflwynwyd hwn i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2025. Fe wnaeth y Pwyllgor gefnogi'r Polisi ar ôl ei adolygu, gyda hwnnw'n cael ei gymeradwyo wedyn gan y Cabinet ym mis Ionawr 2026.<br><br>Fel a ofynnwyd gan y Pwyllgor Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau, ac er mwyn sicrhau bod y cynllun gweithredu'n cael ei fonitro'n rheolaidd, bydd y Pwyllgor yn cael adroddiadau monitro perfformiad blynyddol. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2026. |

### Crynodeb o'r Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor

Fe gyflwynodd y Pwyllgor argymhellion i'r Cabinet yn dilyn ystyried adroddiadau, strategaethau ac eitemau monitro perfformiad yn ystod blwyddyn y Cyngor.

Caiff cyfanswm nifer yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd ei nodi isod:

| Crynodeb o'r Argymhellion | |
|---|---|
| **2024/25**<br>• Cyfanswm yr argymhellion a wnaed: **20**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd: **19**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd yn rhannol: **0**<br>• Argymhellion a wrthodwyd: **1** | **2025/26**<br>• Cyfanswm yr argymhellion a wnaed: **16**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd: **15**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd yn rhannol: **0**<br>• Argymhellion a wrthodwyd: **1** |

Ceir manylion llawn yr Argymhellion Craffu yn yr Offerynnau Tracio Argymhellion Craffu perthnasol:

- Offeryn Tracio 2024-2025
- Agenda'r Pwyllgor Craffu – 18 Mehefin 2026 – Wedi'u cynnwys ar Dudalennau 19 - 28

Fe wnaeth y **Pwyllgor Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau** ystyried nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau perfformiad lefel-uchel. Fe wnaeth Aelodau hefyd fynychu sesiynau Briffio Aelodau i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Rhestrir rhai enghreifftiau o'r rhain isod:

| | | |
|---|---|---|
| **Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau** | ♦ Cytundeb Gorswm Persimmon<br>♦ Cynllun Corfforaethol – Cynllun Gweithredu Blynyddol | ♦ Cynllun Rheoli Argyfwng Corfforaethol<br>♦ Adolygiad a Chynllun Gweithredu 5 Mlynedd Strategaeth y Gweithlu |
| **Monitro Perfformiad Lefel Uchel** | ♦ Adroddiad Blynyddol y Gymraeg<br>♦ Offeryn Tracio Argymhellion Craffu – Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad<br>♦ Cynnydd Blynyddol yr Offeryn Tracio | ♦ Rheoli Trysorlys<br>♦ Hunanasesiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor 2024/25<br>♦ Perfformiad o ran Llesiant Cyflogeion a'u Habsenoldeb Oherwydd Salwch |
| **Sesiynau Briffio Aelodau** | ♦ Offeryn Tracio Sgôr BRAG ac Argymhellion Craffu<br>♦ Rhaglen Gyfalaf<br>♦ Felly Beth yw'r Fargen<br>♦ Monitro'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf – Chwarter 1<br>♦ Rôl Aelodau Etholedig i roi cymorth i adsefydlu ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn yr awdurdod lleol<br>♦ Cyfamod y Lluoedd Arfog | ♦ Monitro'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf - Chwarter 2<br>♦ Model Cymdeithasol o Anabledd<br>♦ Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 26/27<br>♦ Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial mewn Llywodraeth Leol<br>♦ Cyflwyniad i System Rheoli Dysgu 'Thinqi'<br>♦ Monitro'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf - Chwarter 3<br>♦ Cydnerthedd Bwyd |

# Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

## Trosolwg y Cadeirydd

Cyfarfu'r pwyllgor naw gwaith trwy gydol 2025/26 gan roi ystyriaeth i nifer o adroddiadau a chyflwyno argymhellion yn eu cylch i'r Cabinet, megis:

- Strategaeth ar gyfer Mynd Ati'n Ddiogel i Leihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal;
- Adolygiad o Ddalgylchoedd; a hefyd
- Cynyddu ffioedd gofalwyr maeth Blaenau Gwent.

Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi mynychu nifer o sesiynau briffio diddorol ac addysgiadol, a oedd yn cwmpasu meysydd ehangach o fewn ei gylch gwaith.

Mae aelodau wedi bod yn ymgysylltu ac wedi gofyn cwestiynau heriol i sicrhau dealltwriaeth lawn am yr adroddiadau a gyflwynwyd.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor am eu presenoldeb dros y flwyddyn, a diolch hefyd i'm His-Gadeirydd, Y Cyngh. Derrick Bevan, am ei gefnogaeth yntau trwy gydol y flwyddyn.



***Y Cyngh. Wayne Hodgins***

***Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.***

## Presenoldeb Aelodau

| Rôl | Aelod | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Y Cynghorydd Wayne Hodgins | 9 o 9 |
| Is-Gadeirydd | Y Cynghorydd Derrick Bevan | 8 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd Sonia Behr (daeth i ben ar 21.01.26) | 6 o 7 |
| Aelod | Y Cynghorydd Helen Cunningham (penodwyd ar 22.01.26) | 2 o 2 |
| Aelod | Y Cynghorydd Gareth A Davies (penodwyd ar 20.11.25) | 5 o 5 |
| Aelod | Y Cynghorydd Jules Gardner (daeth i ben ar 21.01.26) | 4 o 7 |
| Aelod | Y Cynghorydd John Hill | 9 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd Jen Morgan | 3 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd Lee Parsons (daeth i ben ar 19.11.25) | 3 o 7 |
| Aelod | Y Cynghorydd Chris Smith (penodwyd ar 22.01.26) | 2 o 2 |
| Aelod | Y Cynghorydd Jackie Thomas | 8 o 9 |
| Aelod | Y Cynghorydd Haydn Trollope | 8 o 9 |

## Cylch Gwaith y Pwyllgor

Prif feysydd cyfrifoldeb y **Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd** yw datblygu ac adolygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau, a monitro perfformiad y Cyngor ar y cyfan, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Plant (gan gynnwys diogelu Plant a chwynion sy'n ymwneud â phlant a phlant 18+ yn y system ofal)
- Gwasanaethau Addysg (gan gynnwys diogelu mewn Addysg)
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Cymorth i deuluoedd
- Y Gwasanaeth Ieuenctid

## Trosolwg o ddarn allweddol o waith a wnaed gan y Pwyllgor:

| Pwnc: Adolygiad o Ddalgylchoedd | |
|---|---|
| **Gweithgarwch** | Yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Craffu, y cytunodd y Cabinet ag ef ym mis Ebrill 2025, fe gynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch yr Adolygiad o Ddalgylchoedd. Adroddwyd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r cynigion y cytunwyd arnynt wrth y Pwyllgor Craffu ar 20 Ionawr 2026. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cynigion a chyflwyno argymhellion i'r Cabinet i'w cynnwys yn y Polisi Derbyn ar gyfer 2027/28.<br><br>Roedd dau gynnig i'w hystyried:<br>**Cynnig 1**: Sefydlu dalgylch diffiniedig ar gyfer Ysgol Sefydledig Brynmawr, sef yr unig ysgol uwchradd ym Mlaenau Gwent heb ddalgylch.<br>Opsiwn 1: Cyflwyno dalgylch ar gyfer Ysgol Sefydledig Brynmawr i gynnwys dalgylchoedd ar gyfer Ysgolion Cynradd **Beaufort Hill**, Blaen y Cwm, Coed y Garn ac Ystruth, a diwygio'r dalgylchoedd ar gyfer Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr a Chymuned Ddysgu Abertyleri.<br>Opsiwn 2: Cyflwyno dalgylch ar gyfer Ysgol Sefydledig Brynmawr i gynnwys dalgylchoedd ar gyfer Ysgolion Cynradd Blaen y Cwm, Coed y Garn ac Ystruth, a diwygio'r dalgylch ar gyfer Cymuned Ddysgu Abertyleri.<br>**Cynnig 2:** Sefydlu dalgylch dynodedig ar gyfer Ysgol Gymraeg Tredegar a diwygio'r dalgylch cyfredol ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg. |
| **Canlyniad** | Fe argymhellodd y Pwyllgor fod y Cabinet yn cytuno â Chynnig 1, Opsiwn 1, ac fe gefnogodd Gynnig 2 yn llawn gan argymell ei fod yn cael ei gytuno.<br><br>Ar 23 Chwefror 2026, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i argymhelliad y Pwyllgor Craffu ac fe gytunodd â Chynnig 2. Fodd bynnag, mewn perthynas â Chynnig 1, fe benderfynodd y Cabinet wrthod argymhelliad y Pwyllgor Craffu ac yn hytrach fe gytunodd y dylid rhoi Opsiwn 2 ar waith.<br><br>Roedd yr Aelod Cabinet dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ar 17 Mawrth 2026 i ddarparu esboniad manwl o benderfyniad y Cabinet i fabwysiadu Opsiwn 2 a rhoi eglurhad mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor. |

### Crynodeb o Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor

Fe gyflwynodd y Pwyllgor argymhellion i'r Cabinet yn dilyn ystyried adroddiadau, strategaethau ac eitemau monitro perfformiad yn ystod blwyddyn y Cyngor.

Caiff cyfanswm nifer yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd ei nodi isod:

| Crynodeb o'r Argymhellion | |
|---|---|
| **2024/25**<br>• Cyfanswm yr argymhellion a wnaed: **16**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd: **16**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd yn rhannol: **0**<br>• Argymhellion a wrthodwyd: **0** | **2025/26**<br>• Cyfanswm yr argymhellion a wnaed: **6**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd: **5**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd yn rhannol: **0**<br>• Argymhellion a wrthodwyd: **0** |

Ceir manylion llawn yr Argymhellion Craffu yn yr Offerynnau Tracio Argymhellion Craffu perthnasol:

- Offeryn Tracio 2024-2025
- Agenda Cyfarfod y Pwyllgor Craffu – 29 Mehefin 2026 – Wedi'u cynnwys ar Dudalennau 19-34

Fe wnaeth y **Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd** ystyried nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau perfformiad lefel-uchel. Fe wnaeth Aelodau hefyd fynychu sesiynau Briffio Aelodau i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Rhestrir rhai enghreifftiau o'r rhain isod:

| | | |
|---|---|---|
| **Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau** | ♦ Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl-16<br>♦ Strategaeth Rhianta Corfforaethol<br>♦ Canllawiau'r Awdurdod Lleol i'w rhannu gyda chyrff llywodraethu'r holl ysgolion mewn perthynas â defnyddio ffonau symudol/ dyfeisiau clyfar mewn ysgolion | ♦ Strategaeth ar gyfer Mynd Ati'n Ddiogel i Leihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal<br>♦ Cynyddu ffioedd gofalwyr maeth Blaenau Gwent<br>♦ Polisi Derbyn i Ysgolion ar gyfer Addysg Feithrin a Statudol |
| **Monitro Perfformiad Lefel Uchel** | ♦ Offeryn Tracio Argymhellion Craffu (ar gyfer y Pwyllgor Craffu Pobl gynt)<br>♦ Cynnydd Blynyddol yr Offeryn Tracio Argymhellion Archwilio<br>♦ Monitro Perfformiad Blynyddol Diogelu mewn Addysg<br>♦ Monitro Perfformiad Blynyddol Diogelu mewn Gwasanaethau Plant | ♦ Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/25<br>♦ Cynllun Gwella'r Gyfarwyddiaeth Addysg<br>♦ Rhaglen Gwella Ysgolion<br>♦ Presenoldeb, Gwaharddiadau ac Addysg Ddewisol yn y Cartref<br>♦ Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4<br>♦ Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru – Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Cynllun Gweithredu |
| **Sesiynau Briffio Aelodau** | ♦ Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru<br>♦ Cymorth y Gwasanaeth Gwella Ysgolion i Leihau Anghydraddoldebau<br>♦ Dechrau'n Deg Cam 3<br>♦ Gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid | ♦ Adolygiad o Ddalgylchoedd<br>♦ Yr Ystâd Ysgolion |

## Pwyllgor Craffu Datblygu Economaidd a Rheoli Amgylcheddol

### Trosolwg y Cadeirydd

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn arbennig o brysur ac yn gryn her i'r Pwyllgor Craffu Datblygu Economaidd a Rheoli Amgylcheddol, oherwydd bod yr ystod eang o faterion economaidd ac amgylcheddol a ddygwyd ger ein bron wedi galw am ystyriaeth ofalus a thrafodaeth ystyriol, a hynny'n aml yn erbyn cefnlen o bwysau ehangach ac amgylchiadau newidiol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Pwyllgor wedi mynd ar drywydd ei waith mewn ysbryd cadarnhaol a chydweithredol. Mae aelodau wedi dangos ymrwymiad go iawn i'w rôl graffu, gan ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol a hwythau wastad yn cadw buddiannau trigolion yn flaenllaw yn eu trafodaethau.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r swyddogion sydd wedi cefnogi'r Pwyllgor trwy gydol y flwyddyn. Mae eu proffesiynoldeb, eu hamynedd a'u parodrwydd i gefnogi aelodau wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol, fe gymerodd yr aelodau ran mewn sesiynau briffio ehangach hefyd, a ddarparodd gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu gwybodaeth ac archwilio materion cymhleth i gefnogi gwaith craffu mwy gwybodus ac effeithiol.

Hoffwn hefyd fynegi fy niolchgarwch didwyll i'r Cyngh. Chris Smith, fy Is-Gadeirydd, am ei gymorth ac anogaeth barhaus, yn ogystal â'i gyfraniad, ei fewnwelediad a'i ymagwedd gydweithredol.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r Gwasanaethau Democrataidd, y mae eu cefnogaeth y tu ôl i'r llenni'n sicrhau bod cyfarfodydd yn rhedeg yn llyfn a bod y Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol.

Ar y cyfan, er bod maint cylch gwaith y Pwyllgor heb os wedi dod â heriau yn ei sgîl, mae wedi bod yn galonogol gweld y gwaith tîm cryf, yr ymrwymiad ar y cyd, a'r perthnasoedd gweithio cadarnhaol sydd wedi ein helpu i ddod drwy'r flwyddyn gyda'n gilydd.



Y Cyngh. Jacqueline Thomas

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Datblygu Economaidd a Rheoli Amgylcheddol

## Presenoldeb Aelodau

| Rôl | Aelod | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Y Cynghorydd Jackie Thomas | 12 o 12 |
| Is-Gadeirydd | Y Cynghorydd Chris Smith | 10 o 12 |
| Aelod | Y Cynghorydd Sonia Behr (daeth i ben ar 21.01.26) | 6 o 8 |
| Aelod | Y Cynghorydd Keith Chaplin | 5 o 12 |
| Aelod | Y Cynghorydd Malcolm Cross | 7 o 12 |
| Aelod | Y Cynghorydd Gareth A Davies | 11 o 12 |
| Aelod | Y Cynghorydd Wayne Hodgins | 12 o 12 |
| Aelod | Y Cynghorydd Julie Holt | 11 o 12 |
| Aelod | Y Cynghorydd George Humphries (penodwyd ar 22.01.26) | 4 o 5 |
| Aelod | Y Cynghorydd Ross Leadbeater | 11 o 12 |
| Aelod | Y Cynghorydd Jonathan Millard (daeth i ben ar 21.01.26) | 5 o 8 |
| Aelod | Y Cynghorydd Lisa Winnett (penodwyd ar 22.01.26) | 4 o 5 |

## Cylch Gwaith y Pwyllgor

Prif feysydd cyfrifoldeb y **Pwyllgor Craffu Datblygu Economaidd a Rheoli Amgylcheddol** yw datblygu ac adolygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau, a monitro perfformiad y Cyngor ar y cyfan, gan gynnwys:

- Adfywio
- Datblygu Economaidd
- Busnes, sgiliau, prentisiaethau
- Canol Trefi
- Ystadau / Eiddo
- Gwasanaethau Technegol
- Rheolaeth Adeiladu
- Priffyrdd
- Gwasanaethau Stryd
- Bioamrywiaeth / Newid Hinsawdd
- Ynni
- Gwastraff ac Ailgylchu
- Diogelu’r Cyhoedd
- Gorfodi
- Diogelwch Cymunedol
- Rheoli Llifogydd

## Trosolwg o ddarn allweddol o waith a wnaed gan y Pwyllgor:

| Pwnc: Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd 2024–2030 | |
|---|---|
| **Gweithgarwch** | Cyflwynwyd adroddiad ar gynnydd i'r Pwyllgor ynghylch diweddaru'r Strategaeth Leol ar gyfer Llifogydd, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2013, a oedd yn nodi'r dull trosfwaol o reoli perygl llifogydd yn lleol. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn 2015 hefyd. Mae'r Strategaeth Leol newydd yn integreiddio'r ddwy ddogfen i greu un ddogfen. |
| **Canlyniad** | Fe wnaeth y Pwyllgor graffu ar y cynllun gweithredu a sicrhau bod ardaloedd â pherygl uchel o lifogydd ym Mlaenau Gwent yn cael lle amlwg. Hysbyswyd yr aelodau, yn dilyn cefnogaeth y Pwyllgor i'r cynllun gweithredu, y byddai rhagor o ymgynghori â'r cyhoedd yn digwydd cyn bod y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu'n llawn.<br><br>Nododd y Pwyllgor y byddai adolygiad blynyddol o'r Cynllun Llifogydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Datblygu Economaidd a Rheoli Amgylcheddol.<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor dderbyn y mesurau llifogydd a'r cynllun gweithredu ar lifogydd ar gyfer cyflawni'r amcanion strategol a oedd wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Leol.<br><br>Bydd y Strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn hydref 2026 ac, yn dilyn ei argymhellion, bydd y Strategaeth yn cael ei chyflwyno wedyn i'r Cabinet i gael ei mabwysiadu. |

### Crynodeb o Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor

Fe gyflwynodd y Pwyllgor argymhellion i'r Cabinet yn dilyn ystyried adroddiadau, strategaethau ac eitemau monitro perfformiad yn ystod blwyddyn y Cyngor.

Caiff cyfanswm nifer yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd ei nodi isod.

| Crynodeb o'r Argymhellion | |
|---|---|
| **2024/25**<br>• Cyfanswm yr argymhellion a wnaed: **8**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd: **8**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd yn rhannol: **0**<br>• Argymhellion a wrthodwyd: **0** | **2025/26**<br>• Cyfanswm yr argymhellion a wnaed: **9**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd: **9**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd yn rhannol: **0**<br>• Argymhellion a wrthodwyd: **0** |

Ceir manylion llawn yr Argymhellion Craffu yn yr Offerynnau Tracio Argymhellion Craffu perthnasol:

- Offeryn Tracio 2024-2025
- Agenda'r Pwyllgor Craffu 7 Gorffennaf 2026 wedi'u cynnwys ar Dudalennau 31-51

Fe wnaeth y **Pwyllgor Craffu Datblygu Economaidd a Rheoli Amgylcheddol** ystyried nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau perfformiad lefel-uchel. Fe wnaeth Aelodau hefyd fynychu sesiynau Briffio Aelodau i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Rhestrir rhai enghreifftiau o'r rhain isod:

| | | |
|---|---|---|
| **Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau** | • Cynllun Rheoli Llifogydd<br>• Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus<br>• Glasbrint ar gyfer Twf<br>• Cynlluniau Creu Lleoedd Canol Trefi | • Ymwybyddiaeth o Dipio Anghyfreithlon<br>• Y Gronfa Balchder Bro<br>• Fforwm Dinasyddion Dyfodol Teithio ym Mlaenau Gwent |
| **Monitro Perfformiad Lefel Uchel** | • Offeryn Tracio Argymhellion Craffu (y Pwyllgor Craffu Lleoedd gynt) 2024/25<br>• Cynnydd Blynyddol gyda'r Offeryn Tracio Argymhellion Archwilio<br>• Newid Hinsawdd – Adroddiad Blynyddol Sero Net 2024/25<br>• Perfformiad Blynyddol Gwastraff ac Ailgylchu | • Adroddiad Monitro Blynyddol Teledu Cylch Cyfyng<br>• Adroddiad Rheoleiddio Allanol – Gwasanaeth Cynllunio |
| **Sesiynau Briffio Aelodau** | • Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)<br>• Rheoli Cyrchfan<br>• Ymgyrch Sbwriel<br>• Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (yr Awdurdod Glo gynt)<br>• Adroddiadau Ymchwilio i Lifogydd dan Adran 19 | • Y Cyfeiriad yn y Dyfodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Blaenau Gwent<br>• Safleoedd Cyflogaeth Strategol<br>• Diweddariad Cartrefi Hydrogen Homes<br>• Wardeniaid Diogelwch Cymunedol<br>• Cronfa Ffyniant Gyffredin/Cronfa Twf Blaenau Gwent |

# Pwyllgor Craffu Oedolion, Cymunedau a Llesiant

## Trosolwg y Cadeirydd

Bu’n flwyddyn yn llawn digwyddiadau, a llawer o newidiadau, gyda phortffolios yn newid ynghyd â chyfrifoldebau aelodau, ond gallaf ddweud yn gwbl onest na fu llawer o darfu os o gwbl a hynny diolch yn bennaf i broffesiynoldeb ac ymroddiad y staff.

Mae’r cydweithio gyda Thorfaen yn golygu bod cyfnod cyffrous o’n blaenau, ond rhaid i ni beidio â cholli golwg ar yr hyn sy’n bwysig ac mae angen i ni wneud yr hyn sydd orau er mwyn trigolion Blaenau Gwent a’r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i’r Cyngh. Ellen Jones fy Is-Gadeirydd a fu’n gefn i mi trwy gydol y flwyddyn ac a wnaeth oddef fy arferion.



***Y Cyngh. Haydn Trollope***

***Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Oedolion, Cymunedau a Llesiant***

### Presenoldeb Aelodau

| Rôl | Aelod | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Y Cynghorydd Haydn Trollope | 6 o 6 |
| Is-Gadeirydd | Y Cynghorydd Ellen Jones | 4 o 6 |
| Aelod | Y Cynghorydd Peter Baldwin | 4 o 6 |
| Aelod | Y Cynghorydd Dai Davies | 6 o 6 |
| Aelod | Y Cynghorydd Malcom Day | 5 o 6 |
| Aelod | Y Cynghorydd Jules Gardner (daeth i ben ar 21.01.26) | 3 o 5 |
| Aelod | Y Cynghorydd Julie Holt | 6 o 6 |
| Aelod | Y Cynghorydd George Humphries | 6 o 6 |
| Aelod | Y Cynghorydd Diane Rowberry | 5 o 6 |
| Aelod | Y Cynghorydd David Wilkshire (penodwyd ar 22.01.26) | 1 o 1 |
| Aelod | Y Cynghorydd Dean Woods (penodwyd ar 22.01.26) | 1 o 1 |

### Cylch Gwaith y Pwyllgor

Prif feysydd cyfrifoldeb y **Pwyllgor Craffu Oedolion, Cymunedau a Llesiant** yw datblygu ac adolygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau, a monitro perfformiad y Cyngor ar y cyfan, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (gan gynnwys Diogelu Oedolion a chwynion am y Gwasanaethau Oedolion)
- Cymunedau a Llesiant (gan gynnwys Gofal Cwsmeriaid, Tai ac Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin)

## Trosolwg o ddarn allweddol o waith a wnaed gan y Pwyllgor:

| Pwnc: Adolygiad Hamdden | |
|---|---|
| **Gweithgarwch** | Cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad annibynnol o'r arlwy hamdden, llyfrgelloedd a dysgu cymunedol ym Mlaenau Gwent i'r Pwyllgor.<br><br>Bu'r Pwyllgor yn trafod costau ynni, gweithio mewn partneriaeth a hygyrchedd ar gyfer ardaloedd pellennig. Amlygwyd ymdrechion yr Ymddiriedolaeth i leihau defnydd o ynni, ochr yn ochr â phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a'r angen i archwilio ffyrdd o wella hygyrchedd i'r holl gymunedau.<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr opsiynau yn yr adroddiad ac fe argymhellodd fod adroddiad monitro'n cael ei gyflwyno rywbryd yn y dyfodol i fonitro'r modd y rhoddir argymhellion yr adolygiad ar waith ac effaith hynny. |
| **Canlyniad** | Fe argymhellodd y Pwyllgor fod y Cyngor yn cytuno ag argymhellion yr adolygiad a oedd wedi'u nodi yn yr adroddiad ac yn cael adroddiad monitro rywbryd yn y dyfodol i fonitro'r modd y rhoddir yr argymhellion ar waith ac effaith hynny.<br><br>Fe gytunodd y Cyngor ag argymhelliad y Pwyllgor Craffu. |

### Crynodeb o Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor

Fe gyflwynodd y Pwyllgor argymhellion i'r Cabinet yn dilyn ystyried adroddiadau, strategaethau ac eitemau monitro perfformiad yn ystod blwyddyn y Cyngor.

Caiff cyfanswm nifer yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd ei nodi isod.

| Crynodeb o'r Argymhellion | |
|---|---|
| **2024/25**<br>• Cyfanswm yr argymhellion a wnaed: **7**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd: **6**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd yn rhannol: **1**<br>• Argymhellion a wrthodwyd: **0** | **2025/26**<br>• Cyfanswm yr argymhellion a wnaed: **5**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd: **5**<br>• Argymhellion a dderbyniwyd yn rhannol: **0**<br>• Argymhellion a wrthodwyd: **0** |

Ceir manylion llawn yr Argymhellion Craffu yn yr Offerynnau Tracio Argymhellion Craffu perthnasol:

- Offeryn Tracio 2024-2025
- Agenda Cyfarfod y Pwyllgor Craffu 25 Mehefin 2026 wedi'u cynnwys o Dudalen 37-51

Fe wnaeth y **Pwyllgor Craffu Oedolion, Cymunedau a Llesiant** ystyried nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau perfformiad lefel-uchel. Fe wnaeth Aelodau hefyd fynychu sesiynau Briffio Aelodau i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Rhestrir rhai enghreifftiau o'r rhain isod:

| | | |
|---|---|---|
| **Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau** | • Strategaeth Dai<br>• Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Cyhoeddus | ♦ Adolygiad o Ymyrryd yn Gynnar ac Atal |
| **Monitro Perfformiad Lefel Uchel** | • Monitro Perfformiad Blynyddol Diogelu ar gyfer Gwasanaethau Oedolion<br>• Offeryn Tracio Argymhellion Craffu (o'r Pwyllgor Craffu Pobl gynt)<br>• Cynnydd Blynyddol yr Offeryn Tracio Argymhellion Archwilio | • Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/25<br>• Adroddiadau Rheoleiddio Allanol<br>• Swyddi a Ariannwyd â Chyllid Grant<br>• Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru<br>• Perfformiad a Monitro Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin |
| **Sesiynau Briffio Aelodau** | • Fy Ngwasanaethau Cyngor a'r Ganolfan Gyswllt<br>• Ymgynghori ar y Papur Gwyrdd Diwygio Lles | |

## Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (a reolir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent)

Fe sefydlwyd Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ym mis Mawrth 2023, i graffu ar effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol.

Swyddogaethau statudol craidd y Pwyllgor yw:

- Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau gweithredu a gymerwyd, gan y Bwrdd;
- Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
- Cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu ei drefniadau llywodraethu;
- Ystyried materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd y gall Gweinidogion Cymru eu hatgyfeirio ato ac adrodd wrth Weinidogion Cymru yn unol â hynny; a hefyd
- Cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r Bwrdd a osodir arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ychwanegol at y swyddogaethau hyn gall y Pwyllgor hefyd ystyried:

- Effeithiolrwydd yr Asesiad Llesiant;
- Effeithiolrwydd y Cynllun Llesiant;
- Effeithiolrwydd trefniadau mesur perfformiad;
- Lefel yr ymrwymiad gan bartneriaid unigol i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran cyfleu ei waith, ei amcanion a'i ddeilliannau i'w randdeiliaid; ac
- Effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran ymdrin â mater cyllid cyfunol i fynd i'r afael â blaenoriaethau.

I'w alluogi i gyflawni ei swyddogaeth graffu bydd y Pwyllgor Craffu'n cael tystiolaeth ar ffurf:

- Asesiad o lesiant lleol;
- Adroddiadau blynyddol; ac
- Adrodd ar brosiectau ar y cyd a gyfarwyddwyd gan y *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol.*

Dylai'r Pwyllgor gydnabod mai dim ond craffu ar 'gorff corfforedig' y BGC y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei ganiatáu, ac nad yw'n caniatáu craffu ar yr aelodau unigol. Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan fel a ganlyn:

> *"Gall y pwyllgor ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r bwrdd roi tystiolaeth, ond dim ond mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau ar y cyd a ddyroddwyd iddynt fel aelod o'r bwrdd dan y Ddeddf hon."*

## Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Mae aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys nifer cyfartal o aelodau etholedig o ardal pob awdurdod lleol, heb gynnwys Aelodau Cabinet a hefyd aelodau ychwanegol enwebedig o sefydliadau partner:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent– 2 Aelod Etholedig
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – 2 Aelod Etholedig
- Cyngor Sir Fynwy – 2 Aelod Etholedig
- Cyngor Dinas Casnewydd – 2 Aelod Etholedig
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen– 2 Aelod Etholedig
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan– 1 Aelod Etholedig
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent – 1 Cynrychiolydd
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru – 2 Aelod Etholedig
- Cyfoeth Naturiol Cymru i gael ei gynnwys ond dim cynrychiolydd ar y Cydbwyllgor Craffu

Yn ystod 2025/26, mae'r pwyllgor wedi cwrdd bedair gwaith ac wedi ystyried eitemau a oedd yn cynnwys:

- Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Gwent;
- Asesiad Llesiant Gwent;
- Maes Ffocws yn Fframwaith Cyflawni BGC Gwent: Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn
- Maes Ffocws yn Fframwaith Cyflawni BGC Gwent: Mae pawb yn byw mewn cymuned sy'n barod am yr hinsawdd lle caiff yr amgylchedd ei werthfawrogi a'i ddiogelu.

Mae unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Craffu'n cael eu cyflwyno mewn adroddiad i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i gael eu hystyried a'u cymeradwyo.

## Presenoldeb Aelodau ar y Cyfan mewn Pwyllgorau Craffu

Fel a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2025, fe gytunwyd ar set newydd o Bwyllgorau Craffu.

Mae’r tabl isod yn cymharu presenoldeb ar y cyfan ar gyfer y pwyllgorau craffu rhwng 2024/25 a 2025/26. Mae’r rhan fwyaf o feysydd pwyllgorau’n rhai y gellir eu cymharu’n fras, ac eithrio Partneriaeth, nad yw yn ei le mwyach, ac Oedolion, Cymunedau a Llesiant, sy’n gyfuniad o’r pwyllgorau Pobl a Lleoedd:

| Pwyllgor | Nifer yr Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd a Gynhaliwyd 2025/26 | Presenoldeb Disgwyliedig 2025/26 | Presenoldeb Gwirioneddol 2025/26 | Presenoldeb 2025/26 % | Presenoldeb 2024/25 % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau | 9 | 9 | 81 | 64 | 79% | 86% |
| Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd **Pobl gynt** | 9 | 9 | 81 | 67 | 83% | 85% |
| Datblygu Economaidd a Rheoli Amgylcheddol **Lleoedd gynt** | 10 | 12 | 120 | 98 | 82% | 86% |
| Oedolion, Cymunedau a Llesiant **Cyfuniad o’r pwyllgorau Pobl a Lleoedd** | 10 | 6 | 60 | 47 | 78% | Ddim yn gallu cael ei gymharu’n uniongyrchol |
| Partneriaeth **Ddim yn ei le mwyach** | - | - | - | - | - | 93% |
| **Cyfanswm y Cwbl** | **38** | **36** | **342** | **276** | **81%** | **86%** |

# Holiadur Gwerthuso Blynyddol yr Aelodau

Fel rhan o'r adolygiad blynyddol o drefniadau craffu, gwahoddwyd Aelodau Etholedig i gwblhau holiadur gwerthuso i ddarparu adborth ar eu profiad hwy o brosesau democrataidd a chraffu yn ystod y flwyddyn. Cafodd yr holiadur ei gylchredeg i bob un o'r 33 o Aelodau Etholedig, gyda 15 o ymatebion yn dod i law, a hynny'n gyfradd ymateb o 45%.

Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gadarnhaol ac fe amlygodd y gwerth y mae Aelodau'n ei roi ar gymorth y gwasanaethau democrataidd a chraffu, gan gynnwys yr Hysbysiadau i Aelodau a'r cymorth gan y Tîm Democrataidd. Fe wnaeth yr ymatebion adnabod nifer o themâu hefyd i oleuo datblygiad parhaus trefniadau craffu, gan gynnwys cysondeb cadeirio, defnydd o rag-gyfarfodydd, cynllunio Blaenraglenni Gwaith, hyfforddi a datblygu, ymgysylltiad y Cabinet, a chyfleoedd ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn fwy.

Thema a gododd dro ar ôl tro oedd y gwerth y mae Aelodau'n ei roi ar gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb neu hybrid, yn enwedig o ran rhoi cymorth i gyfranogi, trafod a datblygu aelodau. Fe wnaeth adborth amlygu cyfleoedd i gryfhau ymwybyddiaeth y cyhoedd a'u hymwneud â'r broses graffu hefyd.

Mae'r adborth wedi goleuo cynllun gweithredu drafft, a fydd yn cael ei ddiweddaru â llinellau amser a swyddogion cyfrifol yn dilyn cael cytundeb pwyllgorau. Mewn ymateb i argymhelliad o werthusiad 2024/25, fe ychwanegwyd opsiwn "Ddim yn Gwybod / Amh." at holiadur eleni i wella ansawdd yr adborth a gafwyd.

Bydd canfyddiadau'r Holiadur Gwerthuso Blynyddol a'r camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn y cylch newydd ar gyfer 2026/27 i gael eu hystyried.

# Sut y gall y cyhoedd ymwneud â'r Broses Graffu

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol yng nghyfarfod unrhyw Bwyllgor i arsylwi ar y trafodion (oni bai bod eitem esempt). Cyhoeddir agendâu a phapurau pwyllgorau wythnos cyn y cyfarfod, ar wefan y Cyngor. Mae'r holl gyfarfodydd yn cael eu recordio a'u lanlwytho i wefan y Cyngor, fel arfer erbyn y diwrnod canlynol, i alluogi aelodau'r cyhoedd i weld y cyfarfodydd ar-lein. Serch hynny, pe bai aelod o'r cyhoedd yn gofyn am gael bod yn bresennol yn y Swyddfeydd Cyffredinol neu drwy Microsoft Teams i arsylwi ar gyfarfod, byddai darpariaethau'n cael eu rhoi ar waith i'w gwneud yn bosibl arsylwi ar gyfarfod y pwyllgor.

Mae'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi'n ategu ymrwymiad y Cyngor i wella cyfathrebu ac ymwneud â thrigolion a rhanddeiliaid. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd i gryfhau dealltwriaeth y cyhoedd am y broses graffu ac annog mewnbwn ehangach i faterion a gaiff eu hystyried gan bwyllgorau Craffu. Mae camau gweithredu yn y Strategaeth i gefnogi ymgysylltiad â gweithgarwch democrataidd bellach yn cael eu cyflawni ar y cyd gyda Chyngor Torfaen.

Mae Platfform Ymgysylltu y Cyngor yn galluogi trigolion a rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn ymgyngoriadau a rhannu eu barn ynglŷn â materion sy'n effeithio ar Flaenau Gwent. Gall hyn helpu i adnabod cyfleoedd i farn y gymuned ddarparu syniadau am bynciau craffu perthnasol hefyd.

I grynhoi, mae'r Cyngor yn defnyddio ystod o ddulliau i wneud craffu'n fwy hygyrch, gan helpu trigolion i ddeall sut y caiff penderfyniadau eu hadolygu a sut y gallant gyfrannu eu barn ynglŷn â materion sy'n effeithio ar Flaenau Gwent.

Mae Agendâu, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd i'w cael ar Wefan y Cyngor:
Cynghorwyr a Phwyllgorau | CBS Blaenau Gwent

Gall aelodau'r cyhoedd awgrymu eitemau ar gyfer y Pwyllgorau Craffu naill ai trwy ysgrifennu at y Tîm Democrataidd, trwy anfon neges e-bost ato neu drwy ei ffonio. Ceir gwybodaeth ar Wefan y Cyngor hefyd: CBS Blaenau Gwent: Chwarae Rhan mewn Democratiaeth (blaenau-gwent.gov.uk)

Mae'r holl wybodaeth ar gyfer cysylltu i'w chael ar ddiwedd y ddogfen hon.

# Deddfwriaeth

Mae'r adran hon yn crynhoi'r dyletswyddau deddfwriaethol a'r gofynion polisi allweddol sy'n ategu craffu effeithiol, cyfranogiad democrataidd a phrosesau penderfynu tryloyw, gan gynnwys ystyriaeth i gydraddoldeb, cynnwys, llesiant hirdymor ac effeithiau cymunedol ehangach.

### Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd wedi'u bwriadu i hybu amrywiaeth, cynnwys a chyfranogiad mewn trefniadau democrataidd lleol. Maer rhain yn cynnwys:

- Annog pobl leol i gyfranogi mewn prosesau penderfynu;
- Datblygu Strategaeth Gyfranogi;
- Darlledu cyfarfodydd yn electronig a chynnal cyfarfodydd aml-leoliad;
- Datblygu polisi ar gyfarfodydd aml-leoliad;
- Adolygu cynllun deisebau'r Cyngor; a hefyd
- Darparu cyfleoedd i rannu swyddi ar gyfer aelodau'r Cabinet.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy trwy ystyried effaith hirdymor penderfyniadau ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Fel corff cyhoeddus dynodedig dan y Ddeddf, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent roi ystyriaeth ddyladwy i'r gofynion hyn.

### Asesiad Effaith Integredig (IIA)

Fel corff cyhoeddus diffiniedig yng Nghymru, rhaid i'r Cyngor asesu effaith debygol polisïau ac arferion newydd a rhai a adolygir, gan gynnwys dyletswyddau statudol ac unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau a gwmpesir gan y naw nodwedd warchodedig.

Lle adnabyddir effaith negyddol sylweddol, neu debygol, rhaid i'r Cyngor adrodd ar hyn a nodi unrhyw benderfyniadau a wnaed, gydag unrhyw gamau lliniaru a ystyriwyd neu a roddwyd ar waith.

Cryfhawyd y broses i sicrhau bod ffactorau cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried pan wneir penderfyniadau a phan fo polisïau'n cael eu datblygu neu eu hadolygu. Adlewyrchir y gofyniad hwn mewn templedi adrodd corfforaethol.

Mae proses Asesiad Effaith Integredig newydd wedi cael ei datblygu a honno bellach yn ymgorffori ystyriaethau polisi ehangach y tu hwnt i ddyletswyddau cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys:

- Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Amcanion Corfforaethol;
- Dyletswyddau tuag at y Lluoedd Arfog; ac
- Ystyriaethau i ddiogelwch cymunedol.

Mae'r Tîm Polisi'n dal i roi cymorth, cyngor ac arweiniad parhaus i swyddogion sy'n cwblhau'r broses Asesiad Effaith Integredig.

Bydd gwaith pellach yn adolygu trefniadau asesu effaith ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r rhai sydd gan Gyngor Torfaen fel rhan o ddatblygiadau arfaethedig yn y dyfodol.

## Datblygiadau Arfaethedig yn y Dyfodol

Bydd y datblygiadau canlynol yn ategu gwelliant parhaus trefniadau craffu yn ystod 2026/27, gyda ffocws ar gydweithio, hygyrchedd, ymgysylltu democrataidd a chymorth effeithiol i bwyllgorau.

- Datblygu trefniadau i gefnogi pwyllgorau craffu ar y cyd gyda Chyngor Torfaen;
- Sefydlu trefniadau darlledu byw ar gyfer cyfarfodydd democrataidd perthnasol;
- Canlyn arni â gwaith i sefydlu ystafell gyfarfod newydd yn y Swyddfeydd Cyffredinol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau;
- Rhoi camau gweithredu ar waith sy’n deillio o Holiadur Gwerthuso Blynyddol yr Aelodau;
- Rhoi cymorth i adolygu a mireinio Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi’r Cyngor mewn perthynas â’r broses ddemocrataidd, gyda ffocws ar gynyddu ymgysylltiad a sicrhau bod y gwaith hwn yn cyd-fynd â gweithgarwch sy’n gysylltiedig â’r Fargen.

## Gwybodaeth ar gyfer Cysylltu

Os hoffech gael gwybod mwy am y gwaith yr ydym wedi'i wneud neu sut i ymwneud â gweithgarwch Craffu yn y dyfodol cysylltwch â:


**Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd)**

Gemma Wasley

**E-bost:** Gemma.wasley@blaenau-gwent.gov.uk

**Swyddog Craffu a Democrataidd (Ymgynghorydd Pwyllgorau)**

Elizabeth Thomas

**E-bost:** Liz.thomas@blaenau-gwent.gov.uk


**Gallwch gysylltu â'ch Cynghorydd lleol** a siarad gyda hwy am Graffu.

Mae manylion cysylltu Cynghorwyr i'w cael ar ein gwefan yn CBS Blaenau Gwent: Cyfeiriadur Cynghorwyr (blaenau-gwent.gov.uk)

**Cyfeiriad:**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Y Swyddfeydd Cyffredinol
Heol y Gwaith Dur
Tyllwyn
Glynebwy
NP23 6AA

**Gwefan:** CBS Blaenau Gwent: Blaenau Gwent (blaenau-gwent.gov.uk)

**Mae dogfennau ychwanegol a allai fod o ddiddordeb i chi** i'w cael ar ein gwefan.

Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau'r Cyngor

CBS Blaenau Gwent: Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau'r Cyngor (blaenau-gwent.gov.uk)

Cyfansoddiad y Cyngor CBS Blaenau Gwent: Cyfansoddiad y Cyngor

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.**

**This document is also available in Welsh.**